



**Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc
(HMP a YOI)**

Y PARC,

Pen-y-bont ar Ogwr

Adroddiad Blynyddol

Mawrth 2015 - Chwefror 2016

DYDDIAD CYHOEDDI: 29/06/2016

Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa

CRYNODEB O'R CYNWYS

Adran 1	Crynodeb Gweithredol
Adran 2	Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol
Adran 3	Disgrifiad o'r Carchar
Adran 4	Meysydd y mae dyletswydd ar y Bwrdd i adrodd arnynt
Adran 4A	Uned Pobl Ifanc
Adran 4B	Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Adran 4C	Addysg, Dysgu a Sgiliau
Adran 4D	Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl
Adran 4E	Gweithgaredd pwrpasol
Adran 4F	Adsefydlu
Adran 4G	Dalfa Fwy Diogel
Adran 4H	Arwahanu, Gofal a Gwahanu, Goruchwyliaeth Agos
Adran 4I	Gwasanaethau Preswyl
Adran 5	Meysydd Eraill
Adran 6	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Eto, rhaid i ni dynnu sylw at yr angen am leoedd ychwanegol i garcharorion ar gyrsiau achrededig a gomisiynir gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) Mae carcharorion yn cael anhawster yn cwblhau eu cynlluniau dedfryd oherwydd darpariaeth annigonol. Mae'r bwrdd yn siomedig i adrodd nad oes unrhyw dystiolaeth bendant o unrhyw welliant o ran argaeledd lleoedd. Mae'r Bwrdd unwaith eto yn annog NOMS i ddyrannu mwy o leoedd i garcharorion ar y cyrsiau achrededig mae'n eu comisiynu

Mae'r Bwrdd yn pryderu am nifer gynyddol y carcharorion â phroblemau iechyd meddwl, sy'n creu cynnydd yn y galw ar adnoddau cyfyngedig.

Mae'r Bwrdd hefyd yn pryderu am y lefel gynyddol o ddigwyddiadau treisgar yn y Parc, gyda chanran anghymesur ohonynt yn digwydd yn yr Uned Pobl Ifanc.

Mae Pobl Ifanc yn cael eu hanfon i'r carchar fel dewis olaf ac, o ganlyniad, gall y sawl yn y ddalfa fod yn danllyd a thrafferthus iawn gan greu heriau mwy ar gyfer y staff.

Yn gyffredin gyda'r byrddau mewn carchardai eraill, mae'r Bwrdd yn pryderu am y lefel o gamddefnyddio sylweddau o fewn y carchar, yn arbennig y cyfansoddion "sbeis".

Sawl tro mae'r Bwrdd wedi codi'r mater o garcharorion yn colli hyder yn y Cynllun Swyddog Personol. Mae rhai carcharorion yn honni nad ydynt yn ymwybodol o'u swyddogion personol ac mae rhai swyddogion personol wedi methu cael ateb i'w hymholiadau. Mae angen mynd i'r afael â'r canfyddiad hwn.

Mae nifer o geisiadau wedi bod am eiddo yn mynd ar goll yn arbennig pan mae carcharorion yn cael eu symud i'r Uned Phoenix (Yr Uned Gofal a Gwahanu) a bu oedi wrth glirio eiddo. Mae'r lle cyfyngedig ar gyfer eiddo ar gerbydau ar gyfer trosglwyddiadau o garchar i garchar hefyd wedi achosi problemau gydag eiddo yn mynd ar goll yn ystod trosglwyddiadau fel hyn.

Mae'r Bwrdd wedi recriwtio aelodau newydd ond mae wedi colli beth allai fod yn aelodau da oherwydd yr amser a gymerwyd o ddechrau recriwtio i benodiad ffurfiol. Byddem yn dymuno gweld y gweithdrefnau recriwtio yn cael eu symleiddio gyda mwy yn cael ei ddirprwyo i'r byrddau unigol.

Parhaodd y Parc i fod yn llwyddiannus yn y Gwobrau Koestler blynyddol. Mae'r gwobrau hyn yn annog talent ac yn rhoi hwb aruthrol i hunan-barch i'r derbynwyr. Mae'r bwrdd hefyd yn falch o nodi llwyddiant y carcharorion yn ennill 34 pas ar lefel TGAU, pedwar pas Safon Uwch ac, yn benodol, y ddwy radd a enillwyd o'r Brifysgol Agored. Hoffem longyfarch y carcharorion a staff yr Adran Addysg am y llwyddiannau hyn. Rhaid hefyd canmol yr Adran Addysg am ei chyswllt gyda Choleg Addysg Bellach sy'n helpu gydag adsefydlu.

Ymddengys fod penodiad Swyddog Cyswllt y Cleifion a Phencampwyr Gofal Iechyd yn seiliedig ar yr adain yn annog carcharorion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain, ac o ganlyniad mae cwynion yn y maes hwn yn gostwng.

Mae'r gwaith arloesol yn yr Uned Deuluol o ddarparu hyfforddiant, i garcharorion ac aelodau o'u teuluoedd, a ddarperir gan adran arlwyo Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn cynorthwyo yn y broses adsefydlu.

Arolygwyd y carchar gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ym mis Ionawr 2016. Nid oeddem wedi derbyn yr adroddiad ffurfiol erbyn diwedd y flwyddyn adrodd, ond yn ei grynodedeb ar lafar nododd yr Arolygydd bod carchar y Parc yn cael ei redeg yn dda iawn. Mae'r carchar wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y briff.

Argraff gyffredinol y Bwrdd yw bod y Parc yn cael ei rheoli'n dda, bod diogelwch y carcharorion yn hollbwysig, a bod y gweithgaredd pwrpasol a ddarperir yn gyffredinol yn dda iawn.

2 RÔL STATUDOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 yn mynnu bod pob carchar ac IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o aelodau o'r gymuned ble mae'r carchar neu ganolfan wedi'i lleoli.

Mae'r Bwrdd yn benodol gyfrifol am:

- (1) fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a chyfiawn y sawl a gedwir yn y ddalfa yn y carchar, ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu sy'n briodol, am unrhyw bryderon.
- (3) adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR/SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC

Mae Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, yn sefydliad lleol categori B a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc ag Uned Pobl Ifanc fechan gyda chytundeb i ddarparu'r canlynol:-

- i) Gwaelodlin Llety Ardystiedig Normal o 1559 o oedolion a throseddwy'r ifanc.
- ii) Capasiti Gweithredol Presennol o 1723 troseddwr sy'n oedolion a throseddwy'r ifanc a 64 person ifanc.

Agorodd Carchar a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ar yr 17 Tachwedd 1997, a dyma'r unig garchar preifat yng Nghymru. Caiff ei reoli gan Wasanaethau Cyfiawnder G4S ar ran y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (NOMS). Mae llawer o staff y carchar yn cael eu recriwtio o'r ardal leol.

Mae'r carchar ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr ond mae'n hawdd ei gyrraedd ar y ffordd neu'r rheilffordd.

Yn gyffredin â phob sefydliad a gonaethwyd, mae gan Garchar a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc Reolwr. Mae'r Rheolwr yn rheoli'r contract 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac yn uniongyrchol gyfrifol i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwy'r (Cymru).

Mae Bloc y Coed newydd, a agorwyd ym mis Ionawr 2015 i ddarparu ar gyfer carcharorion sy'n agored i niwed, wedi bod yn gwbl weithredol yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae lle i 387 carcharor yn y bloc ond y capasiti gweithredol yw 370.

Darperir gofal iechyd gan Wasanaethau Integredig G4S.

Darperir addysg gan G4S.

Darperir Gwasanaethau Llyfrgell gan Greenwich Leisure Limited

Mae'r Rhaglenni Adsefydlu wedi'u contractio i Working Links ond, oherwydd cyfansoddiad cymhleth y boblogaeth, mae is-contract gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn rhan o'r rhaglen adsefydlu.

4A UNED POBL IFANC (dynion 15-17 mlwydd oed)

Yr uned pobl ifanc yng Ngharchar ac Uned Pobl Ifanc y Parc yw'r unig Sefydliad Troseddwy'r Ifanc (YOI) ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Uned Pobl Ifanc yn gallu lletya hyd at 64 person ifanc ar remand ac wedi'u dedfrydu ac mae'n cynnwys dwy adain. Mae'r Bwrdd yn ymweld â'r uned yn rheolaidd, ac yn monitro'r carcharorion hynny sydd wedi'u harwahanu yn ôl yr angen. Mae aelodau'r Bwrdd fel arfer yn ymweld â'r uned dair gwaith yr wythnos. Trwy weithio'n agos gyda'r bobl ifanc mae mwy o ymwybyddiaeth o'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) a'i rôl.

Mae'r bobl ifanc yn mynychu sesiynau addysg a chymdeithasau yn rheolaidd. Mae'r oriau y tu allan i'r gell yn wahanol yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau oherwydd gwahanol gyfundrefnau. Cyfartaledd yr oriau y tu allan i'r gell yn ystod yr wythnos o fis Mawrth 2015 i fis Ionawr 2016 oedd 10.42 y person ifanc sydd ychydig yn uwch na'r llynedd. Cyfartaledd yr oriau y tu allan i'r gell yn ystod ar benwythnosau o fis Mawrth 2015 i fis Ionawr 2016 oedd 8.79 y person ifanc sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd o 9.26 awr, fel yr adroddwyd y llynedd.

Mae'r nifer gynyddol o breswylwyr anodd a thanllyd wedi achosi problemau i staff. Mae'r bwrdd yn cydnabod gwaith caled ac ymdrech sylweddol y staff yn ystod y cyfnod hwn ac yn eu canmol am eu gwaith. Cyfanswm nifer y digwyddiadau hysbysadwy o fis Mawrth 2015 i fis Ionawr 2016 oedd 388, cyfartaledd o ryw 35 y mis. Roedd nifer fawr iawn o ddigwyddiadau yn ystod mis Hydref. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 71% o'i gymharu â'r llynedd, pan gafwyd 226 digwyddiad. Fel y nodwyd eisoes, mae rhai pobl ifanc gyda llawer o drafferthion ac anghenion ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nifer yr arwahaniadau, sy'n parhau i achosi pryder i'r bwrdd. Nifer yr arwahaniadau o fis Mawrth 2015 i fis Ionawr 2016 oedd 326, cyfartaledd o 29 y mis. O bryder penodol i'r bwrdd yw bod arwahaniadau yn gallu digwydd mewn celloedd sy'n cynnwys dau berson, gyda dim ond un ohonynt ar arwahaniad. Golyga hynny bod y ddau yn cael eu heffeithio gan unrhyw golledion a osodwyd yn y dyfarniad.

Mae'r staff yn gweithio'n galed ar adeiladu perthynas gyda'r bobl ifanc yn eu gofal, ac wrth eu cefnogi gyda'u problemau. Mae'r bobl ifanc yn gallu ennill cymwysterau achrededig mewn Addysg ac yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw faterion llythrennedd a rhifedd trwy'r amrywiaeth eang o gyrsiau Addysg amgen sy'n cael eucynnig. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i helpu'r bobl ifanc hyn, ac i fynd i'r afael â'u hymddygiad tramgwyddus.

4B CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

Mae'r adran sy'n delio â chydaddoldeb a chynhwysiant wedi ei hailenwi y Tîm Cynhwysiant Cymunedol ac mae ganddi ddau Ymgynghorydd Cynhwysiant Cymunedol dynodedig.

Mae gweithdrefn monitro newydd ar gyfer ymdrin â cheisiadau, a wnaed gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRF), wedi cael ei gyflwyno ac mae unrhyw gais a wneir yn derbyn ateb o fewn pum diwrnod gwaith. Yn ogystal, mae'r system ymgeisio electronig newydd (CMS) yn cael ei ddefnyddio gan y Tîm Cynhwysiant Cymunedol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r carcharorion. Fel rhan o'r system DIRF newydd, cynhelir rhaglenni ymyrraeth amrywiaeth bob mis ar gyfer unrhyw garcharorion sydd wedi arddangos ymddygiad gwahaniaethol, ac mae adroddiadau yn cael eu hanfon at eu goruchwylwyr troseddwr. Mae'r system newydd hon yn dangos ymrwymiad y Parc at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.

Cynhelir hyfforddiant yn fisol fel bod gan yr holl staff fynediad at y sesiwn hyfforddi ar weithredu mewn modd cynhwysol, mae pob aelod newydd o staff hefyd yn cael eu hyfforddi ar hyn yn ystod y cyfnod sefydlu.

Mae pob carcharor newydd yn cael eu gweld gan y Tîm Cynhwysiant Cymunedol fel rhan o'r broses sefydlu. Cyflogir Cynrychiolwyr Cynhwysiant Cymunedol ar yr holl unedau ac yn yr unedau sefydlu.

Cynhelir grwpiau ffocws misol gyda chynrychiolwyr o grwpiau lleiafrifol gan gynnwys y Parc Unedig (grŵp LGBT), Teithwyr Unedig (Grŵp Teithwyr, Roma, Sipsiwn), a grwpiau cynhwysiant cymunedol. Mae pob Cynrychiolydd Cynhwysiant Cymunedol ar yr adain yn cael hyfforddiant parhaus mewn perthynas â throseddau casineb, HIV ac AIDS, ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Ymhlith y gweithgareddau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Roma a Mis Hanes LGBT. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys dangosiadau DVD, gweithdai, digwyddiadau chwaraeon a grwpiau darllen.

4C ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Darperir gwasanaethau addysg yn y Parc gan G4S.

Mae'r holl argymhellion a wnaethpwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi cael eu rhoi ar waith a'u cwblhau ac fe dderbyniodd yr Adran Addysg, Dysgu a Sgiliau sgôr uchel yn yr arolygiad diweddar. Nod yw Adran yw darparu ar gyfer pob un o'u dysgwyr, beth bynnag eu gallu a lefel sgil.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth gynyddol i geisio helpu'r carcharorion hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae mwy o garcharorion wedi cael eu cyflogi fel Mentoriaid Ymddiriedolaeth Shannon, Partneriaid Cyfoedion a Mentoriaid Cefnogaeth Dysgu ac ymddengys bod eu hymrwymiad, ar sail un i un, gyda'r sawl sydd angen cefnogaeth yn llwyddiannus oherwydd bod mwy o ddilyniant i addysg ystafell ddosbarth. Mae rhai mentoriaid hefyd yn darparu cefnogaeth ychwanegol yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae'r mentoriaid yn arloesol wrth ddatblygu dulliau ac adnoddau dysgu ar gyfer anghenion unigol y sawl y maen nhw'n eu cefnogi ac mae ymagwedd ofalgar y mentoriaid wedi creu argraff dda iawn ar y Bwrdd. Mae carcharorion sy'n derbyn cefnogaeth o'r fath wedi dweud wrth Aelodau'r Bwrdd bod eu sgiliau yn datblygu o'r tiwtora un i un yma ac maen nhw wedi bod yn llawn canmoliaeth am ymagwedd amyneddgar ac ysbrydoledig eu mentoriaid. Wrth drafod eu gwaith gydag Aelodau'r Bwrdd, dywedodd y mentoriaid bod y gwaith yn hynod fuddiol ac mae rhai yn bwriadu ceisio sicrhau cyflogaeth mewn maes tebyg ar ôl eu rhyddhau.

Mae'r Parc hefyd wedi cynyddu ei darpariaeth Sgiliau Hanfodol trwy ddarparu cwrs "llwybr carlam" i alluogi'r sawl sydd ag anghenion dysgu i gynyddu eu lefel sgiliau yn gyflym er mwyn iddynt allu symud ymlaen i gyrsiau eraill. Mae dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol hefyd yn rhan o'r ddarpariaeth hyfforddiant galwedigaethol.

Roedd 34 pas yn arholiadau TGAU Mehefin 2015, mewn wyth pwnc gwahanol, a phedwar pas Safon Uwch.

Mae 150 dysgwr wedi bod yn dilyn cyrsiau Addysg Bellach ac Uwch ac mae gan y Parc bum aelod o staff yn darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a chefnogaeth.

Ym mis Ebrill 2015, cynhaliwyd diwrnod agored yn y Parc ble roedd darparwyr addysg leol o'r gymuned yn siarad ac yn cynghori dysgwyr am gyfleoedd addysg eraill. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, cynigwyd lle i ddau garcharor mewn coleg ac mae 10 arall yn ymgeisio. Mae'r carcharorion yn gallu dewis o blith 350 cwrs gwahanol ac maen nhw'n gallu gweithio tra'n astudio eu cwrs o bell. **Cafodd y Coleg wobwr gan Ymddiriedolaeth y Tywysog am y fenter hon.**

Hoffai'r Bwrdd longyfarch y ddau garcharor a raddiodd gyda graddau o'r Brifysgol Agored. Enillodd un Ddosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd, a'r llall 2(1) gydag Anrhydedd. Cynhaliwyd seremoni graddio ffurfiol ym mis Tachwedd yn y Parc gyda nifer o gynrychiolwyr y Brifysgol Agored yn mynychu. Roedd hwn yn achlysur unigryw i'r carchar, gyda'i graddedigion cyntaf. Mae'r carcharorion sy'n mynychu cyrsiau'r Brifysgol Agored wedi canmol y carchar am ei gymorth a'i gefnogaeth.

Mae cwrs newydd "Cymraeg yn y Gweithle" yn cael ei gynnig yn y Parc. Mae hwn yn ychwanegol at gyflogaeth gyfredol ac fe gynhelir un sesiwn yr wythnos. Fel gyda'r cyrsiau Cymraeg eraill sydd ar gael, mae'r cwrs newydd hwn yn boblogaidd iawn.

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn cynnal cynllun peilot gyda charcharorion yn y Parc i'w hyfforddi i ddod yn wirfoddolwyr yn eu cymuned, gan ganolbwyntio ar iechyd a lles. Mae'r charcharorion hyn yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iechyd ar adenydd preswyl a gellir eu defnyddio fel "ymateb cyntaf" pan fydd anafiadau yn digwydd.

Mae Celf a Chrefft yn boblogaidd iawn ac roedd llwyddiant y cyrsiau hyn yn amlwg wrth i'r Parc ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Koestler yn 2015, gan ennill 73 gwobr. Mae cerfluniau, murluniau lliwgar a mosäig, a grëwyd gan y charcharorion, yn ychwanegu at ymddangosiad yr ardal breswyl ac ymwelwyr. Mae nifer o charcharorion wedi ennill TGAU Celf.

Mae'r ddarpariaeth addysg yn y Parc wedi creu argraff dda ar y Bwrdd a dylid canmol y staff am eu hymagwedd gyda rhai o'r grwpiau heriol maen nhw'n dod ar eu traws.

4D GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

Darperir gofal iechyd o fewn y Parc gan Wasanaethau Integredig G4S.

Mae ceisiadau am apwyntiadau i weld gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu gwneud gan garcharorion gan ddefnyddio'r system consolau electronig newydd ar adenydd preswyl.

Nododd adroddiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) bod canfyddiad y carcharorion o Ofal Iechyd yn "hynod negyddol" ond roedd hyn yn seiliedig ar ddiffyg mynediad at Ofal Iechyd yn hytrach nag ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd wedi mynegi pryder am nifer y carcharorion sydd ddim yn mynychu apwyntiadau yn yr amryw glinigau.

Mewn ymateb i adroddiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP), penodwyd Swyddog Cyswllt Cleifion ym mis Ionawr. Mae'r swyddog yma wedi cwrdd â'r Bwrdd ac esbonio amcanion y rôl sef gwella ymwybyddiaeth carcharorion o Ofal Iechyd a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles. Yn ei chyfarfodydd gyda grwpiau o garcharorion, cadarnhawyd mai'r prif faterion oedd diffyg cyfathrebu, methu cael mynediad at wasanaethau mor gyflym ag y byddent yn hoffi a methu gweld rhywun "wyneb yn wyneb" i drafod eu problemau. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, mae carcharorion wedi cael eu hapwyntio'n "Bencampwyr Gofal Iechyd" ar yr adenydd preswyl i gynorthwyo a gweithredu fel cyswllt gyda'r Swyddog Cyswllt Cleifion. Ar ben hynny, mae cyswllt uniongyrchol â'r swyddog newydd ar y consolau electronig (CMS) gan alluogi carcharorion i wneud ymholiadau yn uniongyrchol iddi hi. Er bod y rôl yn ymwneud yn fwy â phrosesau, trefniadau gweinyddol a rhestrau aros, os yw'r swyddog yn ystyried bod angen apwyntiad cynnar ar y carcharorion, mae hi'n gallu cyfeirio'r carcharorion hynny at staff meddygol. Mae dangosyddion cynnar yn dangos bod carcharorion wedi ymateb yn dda i'r fenter hon ac mae gostyngiad wedi bod yn barod yn nifer y cwynion am Ofal Iechyd.

Yn gyffredin â charchardai eraill, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r gofynion cynyddol ar wasanaethau iechyd meddwl a'r anhawster wrth ymdopi gyda hyn gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Yn gysylltiedig â hyn mae'r gofynion am feddyginiaeth ac mae'r Bwrdd ar ddeall bod modd eu rhagnodi yn rhywle arall, ond nad ydynt ar gael o dan y trefniadau yn y Parc, ble gweithredir polisi o ragnodi diogel a chydymffurfio gyda chanllawiau NICE.

4E GWEITHGARWCH PWRPASOL

Yn ychwanegol at y gweithgareddau a ddarperir yn "Y Canolbwynt" sy'n gwasanaethu'r prif garchar, mae'r "Tŷ Dysgu" yn Uned y Coed newydd wedi bod yn cynnig dewis cynyddol o weithgareddau ar gyfer Carcharorion sy'n Agored i Niwed. Mae cyrsiau galwedigaethol mewn gosod trydan, gwaith pren a dylunio graffeg bellach ar gael yn y "Tŷ Dysgu". Mae hefyd cyfleoedd cyflogaeth mewn adran garddwriaethol newydd, canolfan anifeiliaid newydd a chynrychiolwyr carcharorion, partneriaid cyfoedion a mentoriaid addysg yn Uned y Coed. Mae'r carcharorion yn adeiladu ystafell fwyta a storffeydd newydd ar feysydd y bloc newydd ac mae'r gwaith hwn o safon uchel.

O ganlyniad i'r datblygiad newydd yn y Parc a gwblhawyd ym mis Chwefror 2015, mae'r brif gegin bellach o fewn waliau'r carchar ac mae carcharorion yn cael eu cyflogi yn y gegin.

Ail-agorwyd y gweithdy gosod brics yn "Y Canolbwynt" ym mis Ionawr 2015. Mae'r gweithdai Sgiliau Adeiladu wedi cael eu hachredu i gyflwyno gwobrau Sgiliau Lefel 2C.

Mae prosiect newydd yn yr Adran Arlwygo yn paratoi pryddau bwyd ar gyfer y gwasanaeth "Pryd ar Glud" ar gyfer yr henoed yn y gymuned. Soniodd y carcharorion sy'n rhan o'r prosiect hwn wrth Aelodau'r Bwrdd am eu balchder a'r cynnydd yn eu hunanhyder yn sgil y gwaith gwerthfawr hwn.

Yn y Parc, i, ar hyn y bryd mae cyfwerth â 380 lle amser llawn mewn hyfforddiant diwydiannau a hyfforddiant galwedigaethol, gyda 177 ohonynt yn rhai rhan amser, gan ddarparu cyflogaeth i hyd at 497 o'r carcharorion.

Mae'r tîm garddwriaethol yn cynnal y tiroedd yn dda i ddarparu awyrgylch dymunol.

Mae'r carcharorion sy'n gweithio fel glanhawyr yn gyffredinol yn cynnal safon dda o lendid ledled y carchar. Mae'r peintwyr hefyd yn cynnal y peintio a phapuroi safon dda.

Mae sbwriel yn gallu bod yn broblem mewn rhai ardaloedd ond mae'r gwaith o'i glirio fel arfer yn cael ei wneud yn brydlon.

Y nod o benodi Pencampwyr Iechyd ar yr adenydd yw annog carcharorion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles ac i greu cyswllt gyda'r Swyddog Cyswllt Cleifion.

Mae'r Bwrdd wedi nodi'r gwelliant yn narpariaeth gweithgaredd pwrpasol eleni.

4F ADSEFYDLU

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r dyluniad o raglenni adsefydlu wedi cael ei gontractio i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol sy'n cael eu gwobrwyo gan eu llwyddiant wrth atal ail-droseddu. Mae'r cwmnïau hyn yn gweithio gyda charcharorion i ddarparu cefnogaeth adsefydlu a chyflwyno sesiynau ar lety, cyllid, budd-daliadau, cyflogaeth, trais yn y cartref a meysydd eraill. Mae'r trefniadau newydd wedi integreiddio'n dda yn y Parc ac mae cyswllt agos wedi cael ei sefydlu gyda Goruchwylwyr Troseddwy'r allanol fel modd o geisio sicrhau bod cefnogaeth addas yn ei le ar ôl rhyddhau.

Oherwydd natur gymhleth y problemau a achosir gan y grwpiau amrywiol o garcharorion yn y Parc, gan gynnwys Pobl Ifanc, Troseddwy'r Ifanc a nifer uchel o garcharorion sy'n agored i niwed, mae ychydig o'r gwaith adsefydlu yn cael ei is-gontractio i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Mae Gyrfa Cymru yn rhan o'r rhaglen adsefydlu, gan roi cyngor a chefnogaeth i garcharorion ynglŷn â chyfleoedd cyflogaeth.

Nid yw'r Rhaglen Triniaeth Troseddwy'r Rhyw bellach yn cael ei gyflwyno yn y Parc er gwaethaf nifer uchel y troseddwy'r rhyw wedi'u lletya yma. Mae'r carcharorion hynny sy'n barod i gydnabod eu hymddygiad tramgwyddus yn cael eu symud i unedau arbenigol mewn carchardai eraill os, a phan ddaw lleoedd ar gael, gan adael y Parc fel "safle cefnogol" ar gyfer y sawl sy'n aros am le ar gyrsiau o'r fath ac ar gyfer y carcharorion hynny sydd ddim yn barod i ymrwymo gyda phroses y driniaeth. Er nad oes modd ystyried rhyddhau'r troseddwy'r rhyw yn y Parc ar barôl, mae cyrsiau y gallant eu dilyn er mwyn gwneud cynnydd tuag at adsefydlu, megis

TSP – Sgiliau Meddwl

BSR – Adeiladu Sgiliau ar gyfer Adfer

BBR - Adeiladu Gwell Perthynas

RESOLVE – Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Treisgar

Mae'r Parc, yn gyffredin â charchardai eraill â throseddwy'r rhyw â dedfrydau amhenodol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (IPP), wedi dod ar draws problemau ble mae carcharorion o'r fath yn cael eu dal "i ebargofiant" wedi iddynt gwblhau tymor eu tariff ond nad ydynt yn fodlon ymrwymo mewn rhaglenni triniaeth.

Mae menter newydd yn y Parc, sy'n unigryw yn y Gwasanaeth Carchardai, yn cynnwys carcharorion a'u plant yn ymgysylltu â gweithgareddau a drefnir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Bu'r carcharorion a'r plant, yn gwisgo gwisg swyddogion tân, fwynhau defnyddio offer yr injan dân ar gyfer gweithgareddau adeiladu tîm a gweithgareddau eraill, gan gynnwys sesiwn ar ganlyniadau troseddau.

Mae'r Adran Arlwyo wedi creu cyswllt gyda'r Adran Deuluoedd i drefnu dosbarthiadau coginio i'r teulu gyda'r nod o wella perthynas. Mae'r dosbarthiadau hyn yn gysylltiedig â Chynllun Gwobr Dug Caeredin.

Mae gwaith y Parc gyda Phlant a Theuluoedd a phrosiect Waliau Anweledig Cymru yn parhau i gael eu gweld fel model o ragoriaeth ac mae wedi derbyn cydnabyddiaeth yn y byd cyfiawnder. **Cymeradwywn y Parc am ei waith arloesol yn y maes hwn.**

4G DALFA FWY DIOGEL

Mae datganiadau megis "Yn y Parc, mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel" a "Dim Goddefgarwch i Drais" yn amlwg ar ffurf amryw bosteri a hysbysfyrddau ar waliau'r coridorau ac ym mhob adain yn y carchar, gan gynnwys Uned Phoenix ac o'r herwydd, cânt eu gweld gan holl aelodau'r Bwrdd yn ogystal â charcharorion a staff.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o ran Dalfa Fwy Diogel a Lleihau Trais, gyda'r ddau bwnc wedi cael eu gwahanu er mwyn rheoli'r amrediad o wybodaeth a phynciau perthnasol yn well. Mae presenoldeb da yn y ddau gan amrediad addas o uwch reolwyr a gan y Cyfarwyddwr yn aml iawn.

Mae aelod dynodedig o'r IMB yn cael ei wahodd i bob cyfarfod ac yn derbyn yr holl waith papur, cofnodion a chymau gweithredu arfaethedig.

Mae tîm Lleihau Trais bellach wedi ei hen sefydlu, gyda staff allweddol sy'n gweithio'n benodol gyda throsteddwyr unigol a grwpiau i fynd i'r afael ag ymddygiad treisgar. Mae eu llwyth gwaith yn cael ei lywio trwy gasglu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn systematig, sy'n ymwneud â digwyddiadau treisgar a thrwy ddadansoddi cofnodion goruchwyliaeth.

Gweithred benodol arall a sbardunwyd gan y grŵp Lleihau Trais oedd Amnest Arfau, a ddigwyddodd yn yr hydref. Cafodd hwn ei gefnogi'n dda gan y carcharorion ac roedd yn llwyddiannus gyda llwyth sylweddol o arfau a mwy o ymwybyddiaeth o'r mater.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nid oes gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y digwyddiadau treisgar.

Mae nifer o ganfyddiadau wedi bod o gyffuriau, ffonau symudol a chontraband arall yn ystod chwiliadau mewn celloedd ac adenydd gan staff Diogelwch, a hefyd yn yr ardal rhwng wal y carchar a'r ffens diogelwch mewnol. Dywed y carcharorion wrth aelodau'r Bwrdd ei bod yn hawdd cael gafael ar gyffuriau yn y carchar.

Mae'r cyfarfod Dalfa Fwy Diogel wedi cynnal arolwg manwl o'r defnydd effeithiol o Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) a dealltwriaeth staff o'r broses yma. Mae pob ACCT sy'n cael ei gwblhau yn cael ei fonitro gan aelod o'r tîm Dalfa Fwy Diogel, gydag unrhyw faterion yn cael eu nodi a'u hadrodd yn ôl yn y cyfarfod Dalfa Fwy Diogel. Mae cynllun gweithredu clir wedi cael ei sefydlu i wella dealltwriaeth, hyfforddiant ac arferion staff.

Mae Achosion Cymhleth bob tro'n cael eu trafod yn y cyfarfod Dalfa Fwy Diogel, ac mae aelodau'r IMB yn aml yn cael eu gwahodd i fynychu'r arolygon cyfredol.

Bu chwe marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd presennol. O'r rhain, roedd dau oherwydd salwch cronig hirsefydlog, tri o achosion naturiol ac un yn hunanachosedig. Mae adroddiadau'r Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn unol â'r rhain wedi cael eu cwblhau neu wrthi'n cael eu harchwilio. Rydym yn disgwyl am gwest ar bump o'r carcharorion. Mae dyddiadau ar gyfer cwest wedi eu trefnu ar gyfer tri o'r achosion hyn.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cael gwybod yn brydlon pan fo marwolaeth yn digwydd ac yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd unrhyw archwiliad neu gwest.

Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn fodlon bod Dalfa Fwy Diogel yn cael ei weld fel blaenoriaeth ac yn cael ei gymryd o ddifrif gan y Cyfarwyddwr, y Rheolwyr a'r staff.

4H ARWAHANU, GOFAL A GWAHANU, GORUCHWYLIAETH AGOS

Gelwir yr Uned Arwahanu, Gofal a Gwahanu yn Uned Phoenix, ac mae ynddi 24 cell gydag un ohonynt heb ddodrefn a dwy yn cael eu defnyddio fel celloedd arbennig.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod aelodau yn cael gwybod bob tro pan mae'r llety yn Phoenix yn cael ei defnyddio. Rydym hefyd yn cael gwybod pan mae'r celloedd arbennig yn cael eu defnyddio, a'r rhesymau am hyn.

Mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu mynychu pob adolygiad arwahanu ac mae pob carcharor yn Phoenix yn cael ei weld gan aelod o'r Bwrdd bob wythnos.

O arsylwadau'r Bwrdd, mae'r adolygiadau hyn yn dangos ymrwymiad uwch reolwyr a staff at sicrhau bod y gwaith o Gynllunio Llwybrau yn digwydd yn weithredol gyda'r nod o ailintegreiddio'r carcharorion yn brydlon ac yn llwyddiannus. Pan fydd carcharor weithiau'n ceisio aros yn y lleoliad hwn er mwyn osgoi problemau yn y prif garchar, mae hyn yn cael ei herio'n weithredol ac yn gefnogol er mwyn dod i ddatrysiaid.

Mae cyfarfodydd ar achosion unigol yn sicrhau bod ymyriadau addas, gan gynnwys darpariaeth addysgol ar gyfer carcharor, yn parhau i gael eu cyflwyno iddo yn ystod ei gyfnod yn Phoenix.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn falch o nodi'r cynnydd yn narpariaeth ar gyfer gweithgaredd yn y celloedd dros y misoedd diwethaf.

Yn ychwanegol at y llyfrau sydd ar gael ar yr adain, mae amrediad o bosau bellach ar gael gan staff yr adain yn ogystal â gwybodaeth gyfarwyddol ar Ymarfer Corff mewn Cell.

Mae'r adain yn cael adegau prysur a thawel o ddeiliadaeth, ac mae achlysuron wedi bod ble roedd nifer sylweddol o ddigwyddiadau heriol.

Dylid canmol staff yr Uned am eu dull proffesiynol o ymdrin â'r holl sefyllfaoedd hyn.

4I GWASANAETHAU PRESWYL

Mae Uned y Coed newydd wedi bod yn lletya carcharorion am y flwyddyn gyfan ac mae'n darparu llety en suite ar gyfer 387 carcharor sy'n agored i niwed, gyda capasiti gweithredol cyfredol o 370. Mae'r uned wedi'i threfnu'n dda ac mae'n mwynhau darpariaeth ar wahân ar gyfer ymweliadau, gwaith a gofal iechyd.

Mae'r carchar yn cael ei gynnal yn dda yn gyffredinol, ac mae'r safonau glendid yn dda. Mae'r peintio a phapuro a'r gwaith celf ar yr adenydd yn darparu awyrgylch lachar a dymunol.

Mae'r safonau yn y brif gegin yn dda gyda dewis o fwydlen. Er gwaethaf pryderon a fynegwyd gan rai carcharorion mai prif garcharorion yn unig oedd yn cael eu cyflogi yn y ceginau, ni thynwyd ein sylw at unrhyw broblemau. Yn wir, chwe chais yn unig a dderbyniwyd yn ymwneud â bwyd gan y Bwrdd eleni.

Mae celloedd wedi'u haddasu'n arbennig, ar gyfer carcharorion anabl, yn cael eu darparu mewn rhai ardaloedd o'r carchar. Nododd y Bwrdd, ble mae angen, bod cymhorthion ar gyfer carcharorion gydag anabledd corfforol yn cael eu darparu mewn celloedd mewn ardaloedd eraill.

5 MEYSYDD ERAILL

Mae cynnydd ym mhoblogaeth y carchar, a'r cyfnodau cynnar o gyflwyno'r gwaharddiad ar ysmegu yn y Parc, wedi cyfrannu at gynnydd arwyddocaol yn y cwynion yn y carchar. Mae archwiliadau wedi dynodi bod y mwyafrif yn cael eu delio â hwy yn brydlon. Mae ansawdd yr ymatebion i gwynion hefyd wedi gwella.

Mae'r Adran Archwiliadau wedi cynnal archwiliadau mewn meysydd yn ôl yr angen ac mae'r Bwrdd yn ymwybodol o faterion sy'n codi a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i roi unrhyw gamau adferol ar waith.

Mae'r Bwrdd yn gallu adrodd bod staff ardal y Dderbynfa, ac ardal yr Ymwelwyr yn darparu profiad dymunol, cynorthwyol a chroesawgar i ymwelwyr. Mae darpariaeth ardaloedd arbennig ar gyfer rhai carcharorion sy'n ennill breintiau a'u teuluoedd yn drefniant arloesol i wella ymddygiad yn y carchar.

6 GWAITH Y BWRDD

Mae 2015/16 wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Bwrdd oherwydd y golled o ddau aelod a rhai absenoldebau hir dymor oherwydd salwch. Mae tri aelod newydd wedi ymuno â'r Bwrdd. Mae recriwtio aelodau newydd yn broses hir o dan y trefniadau cyfredol ac mae'r Bwrdd wedi colli aelodau addawol oherwydd beth sy'n ymddangos fel oedi diangen.

Er hyn, mae'r Bwrdd wedi parhau i weithredu o ganlyniad i'r ewyllys gref a ddatblygwyd yn y tîm. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'w rôl ac mae'n anelu at fod yn broffesiynol yn ei ymagwedd ac yn gynwysedig yn ei ethos. Mae'r Bwrdd yn cynnal ei ymrwymadau hyfforddiant ac yn adolygu ei arferion yn rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd wrth wneud ei waith.

Mae' Bwrdd y Parc yn ymrwymedig i ymagwedd gynhwysol at amrywiaeth. Daw ein haelodau o amrywiaeth eang o gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig. Mae arferion datblygu'r Bwrdd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion a safbwyntiau amrywiol y boblogaeth yng Ngharchar y Parc.

Mae pob aelod o Fwrdd y Parc yn gwneud eu dyletswyddau mewn modd sy'n hygyrch i bawb o fewn y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn monitro i sefydlu bod y profiadau a'r berthynas rhwng staff, carcharorion ac ymwelwyr yn deg a heb ragfarn.

Mae'r Bwrdd yn ffodus bod gan ei aelodau fynediad hawdd at y Cyfarwyddwr a'r Uwch Reolwyr, a hefyd at y Rheolydd a'i Ddirprwy.

Eto eleni, mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd wedi cynyddu ychydig. Mae hyn yn rhannol esboniadwy oherwydd y cynnydd yng ngwaelodlin y ddeiliadaeth ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Tra bod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag eiddo wedi gostwng eleni, roedd nifer o'r rhain yn ymwneud ag eiddo yn cyrraedd yn hwyr oherwydd brys gyda'r trosglwyddiadau neu ddiffyg lle yn y cerbyd ar gyfer eiddo'r carcharorion. Eto roedd nifer o gwynion am eiddo yn mynd ar goll yn ystod ad-leoli i arwahanu oherwydd oedi yn clirio'r gell am nad oedd adnoddau ar gael i wneud beth sy'n gallu bod yn ymarfer hir, yn enwedig wrth wirio cell a rennir. Mae'r cwynion hyn yn gallu arwain at geisiadau am iawndal gyda rhagor o bwysau ar adnoddau wrth ymdrin â'r ceisiadau hyn, yn benodol pan na fydd pob cais yn ddilys.

Mae'r Bwrdd wedi gweithredu'r gofyniad bod carcharorion yn dilyn y broses cwynion mewnol yn llym, cyn gwneud cais i'r Bwrdd.

Wrth drafod ceisiadau gyda charcharorion, mae'r Bwrdd wedi dod ar draws nifer o achosion ble mae'r carcharor yn honni nad ydynt yn gwybod pwy yw eu swyddog personol. Mae newidiadau a salwch staff yn gallu creu'r dryswch hwn. Mae achlysuron hefyd wedi bod ble mae swyddogion personol wedi ceisio dilyn materion ar ran carcharorion, ond wedi methu cael ymatebion. Yn ddealladwy, mae rhai carcharorion wedi colli hyder yn system y swyddogion personol.

Eto eleni, mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod problemau wedi bod gyda chwynion am garchardai eraill, a dderbyniwyd ac a anfonwyd gan y Parc. Ar adegau, does dim ymateb yn dod gan y sefydliad arall. Mae'r carcharorion wedi gofyn am gymorth aelodau'r Bwrdd gyda'r mater ac rydym yn rhannu rhwystredigaeth y Clerc Cwynion.

Ymwelodd aelodau o'r Bwrdd â Charchar Bryste a Charchar Leyhill yn ystod 2015/16 ac roedd yr ymweliadau'n ddiddorol iawn a'r carchardai yn wahanol iawn i'r Parc.

YSTADEGAU'R BWRDD	
Nifer yr Aelodau yr argymhellir ar gyfer y Bwrdd	22
Nifer aelodau'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	13
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	15
Nifer yr aelodau newydd wnaeth ymuno yn ystod y cyfnod adrodd	3
Nifer yr aelodau a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd	2
Cyfanswm nifer y cyfarfodydd Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	433
Cyfanswm nifer yr adolygiadau arwahanu a gynhaliwyd	93
Cyfanswm nifer yr adolygiadau arwahanu a fynychwyd	93
Dyddiad yr Adolygiad Blynyddol diwethaf ar y Perfformiad Tîm	17/11/2015

CEISIADAU

Cod	Pwnc	2012-13	2013 -14	2014-15	2015-16
A	Llety	21	18	18	24
B	Dyfarniadau	17	13	7	7
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd)	19	14	11	16
D	Addysg/Cyflogaeth/Hyfforddiant gan gynnwys CAU	42	43	55	43
E 1	Teulu/ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	88	84	68	78
E 2	Cyllid/Tâl	1	2	1	21
F	Yn ymwneud â bwyd/y gegin	13	7	6	6
G	Yn ymwneud ag lechyd	172	91	84	99
H 1	Eiddo (yn ystod trosglwyddo/ mewn sefydliad arall)	26	26	49	41
H 2	Eiddo (yn y sefydliad presennol)	50	54	72	66
H 3	Ffreutur, Cyfleusterau, siopa Catalog, Argos	18	5	9	8
I	Yn ymwneud â'r ddedfryd (gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, aildroseddu ac ati)	61	65	90	53
J	Pryderon Staff/Carcharorion gan gynnwys bwlio	74	61	61	65
K	Trosglwyddiadau	26	21	26	48
L	Amrywiol	126	49	32	25
	Cyfanswm nifer y Ceisiadau i'r IMB	764	553	589	600

